

# YMWELIAD SAFLE CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd 17 Awst, 2022

### YN BRESENNOL:

Cynghorydd Neville Evans (Cadeirydd)  
Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff Evans, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Alwen Watkin, Robin Williams, Liz Wood.

### WRTH LAW:

Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLIJ)  
Uwch Swyddog Cynllunio (JR)  
Peiriannydd Rheoli Datblygu (Priffyrdd) (WIH)  
Swyddog Pwyllgorau (ATH)

### YMDDIHEURIADAU:

Dim

### HEFYD YN BRESENNOL:

Aelod Lleol: Cynghorydd Alun Roberts, Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio) (am ran o'r cyfarfod)

## 1. FPL/2022/51 - Cais llawn ar gyfer codi adeilad llety ategol 6 llofft ynghyd a datblygiadau cysylltiedig yn Plas Rhianfa, Glyngarth, Porthaethwy

Amlinellodd yr Uwch Swyddog Cynllunio y cais a'i leoliad ar safle'r hen gyrtiau tennis nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio o fewn gerddi Gwesty Plas Rhianfa. Dangoswyd cynlluniau a lluniau i Aelodau er mwyn rhoi syniad iddynt o ddyluniad yr estyniad arfaethedig. Dangoswyd fideos i Aelodau hefyd a oedd yn dynodi'r ddwy fynedfa i'r Gwesty ynghyd â safle'r cais o fewn ei gyd-destun ar dir y Gwesty ac mewn perthynas â'r gerddi a'r prif adeilad rhestredig.

Cadarnhawyd fod y cais wedi'i ddiwygio a'i fod bellach ar raddfa lai o'i gymharu â'r cynnig gwreiddiol am adeilad ategol deulawr 8 ystafell wely i fod yn adeilad un llawr ar gyfer 6 ystafell wely ategol.

Amlygodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Lleol, faterion yn ymwneud â pharcio yn enwedig parcio ar y stryd ar ffordd yr A545 Biwmares gan gynnwys i ddanfon nwyddau; y posibilrwydd ar gyfer mwy o lygredd golau ar lannau'r Fenai o fewn AHNE a phryderon mewn perthynas â chadwraeth coed.

Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y ddarpariaeth parcio yn ddigonol ac yn unol â safonau parcio.

Cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Cynllunio rai pwyntiau a godwyd mewn perthynas â ffenestri'r adeilad a materion edrych drosodd.

Nododd y Pwyllgor y byddai'd ddefnyddiol petai ystadegau damweiniau traffig y ffordd ar gyfer ffordd Biwmares ar gael iddo.

**Cynghorydd Neville Evans  
(Cadeirydd)**